



Cynorthwydd Digwyddiad Cymerwch Ran Amgueddfa Lechi Cymru

Cynorthwydd Digwyddiad Cymerwch Ran 2027

Rydyn ni'n chwilio am Gynhyrchydd Amgueddfa Cymru i'n helpu i ddatblygu a rhedeg gweithgareddau fel rhan o'n presenoldeb ni yn nigwyddiad **Cymerwch Ran 2027**, digwyddiad celfyddydau, llenyddiaeth a gwyddoniaeth flynyddol Venue Cymru i bobl 0 - 180ed a'u teuluoedd.

Rydym yn bwriadu datblygu gweithgareddau yn seiliedig ar gasgliad Amgueddfa Lechi Cymru. Er bod yr amgueddfa ar gau ar gyfer project ailddatblygu, 'da ni dal eisiau cysylltu efo chi a'n cynulleidfaoedd. Byddwch chi'n meddwl am syniadau ar gyfer gweithgareddau, yn casglu adnoddau ac yn helpu cynnal y gweithgaredd yn y digwyddiad ar Ionawr 16-17 2027 yn Venue Cymru, Llandudno.

Byddwch chi yn...

- Datblygu syniadau am weithgaredd creadigol, rhyngweithiol ac ymarferol sydd yn addas i deuluoedd a phobl ifanc.
- Gweithio gyda staff Amgueddfa Lechi i dreialu'r gweithgaredd.
- Casglu adnoddau.
- Gweithio yn ystod digwyddiad Cymerwch Ran yn Venue Cymru, 16-17 Ionawr, gyda staff yr amgueddfa i gynnal y gweithgaredd.

Dylech fod yn gyffyrddus yn gweithio ar eich liwt eich hun.

Bydd disgwyl i chi deithio i Landudno i fynychu'r digwyddiad yn Ionawr. Os yw teithio yn rhwystr sy'n eich atal rhag gwneud cais, rhowch wybod i ni a gallwn drafod gofynion mynediad a gwneud addasiadau.

Mae'r Gymraeg yn hanfodol ar gyfer y rôl yma. Bydd angen cynhyrchu pob gweithgaredd yn ddwyieithog, ac mae dealltwriaeth a gwerthfawrogiad o hyn yn bwysig.

Byddwch yn cael eich rheoli gan yr Adran Ymgysylltu.

Rydyn ni'n amcangyfrif 5 diwrnod i gwblhau'r project yma. Efallai y bydd diwrnodau ychwanegol ar gael.

Parhad...

**BLOEDD
ACP**

**AMGUEDDFA
CYMRU**



Ffi: £14.10 yr awr ynghyd â chostau teithio. 5 diwrnod, oddeutu 7 awr y diwrnod.

Dyddiad dechrau: Cyn gynted ag y bo modd

Dyddiadau cyflawni: I'w pennu gyda'r ymgeisydd. Rhaid i'r unigolyn llwyddiannus fod ar gael i fynychu 2 ddiwrnod y digwyddiad 16-17 Ionawr 2027.

I wneud cais

Rhaid ichi fod yn 16 – 25 oed ac yn byw yng Nghymru er mwyn gwneud cais.

Rhannwch:

- Ychydig o wybodaeth amdanoch chi'ch hun
- Eich diddordeb yn y rôl
- Eich profiad byw, eich profiad gwaith neu'ch profiad gwirfoddol sy'n berthnasol i'r rôl yma.

Gallwch chi [lawrlwytho'r ffurflen gais o wefan Amgueddfa Cymru](#), ei llenwi a'i hanfon at ymgysylltu@amgueddfacymru.ac.uk.

Gallwch chi hefyd wneud cais gyda fideo neu glip sain 2 funud o hyd.

Os ydych chi angen help i lenwi'r ffurflen gais, ffoniwch ni ar 029 2057 3002.

Dyddiad cau ceisiadau: 2 Tachwedd 2026

Mae'n ofynnol inni ddilyn polisi'r llywodraeth ar yr Hawl i Weithio. Dim ond os oes gennych chi Hawl i Weithio yn y DU y cewch chi wneud cais. Gallwch wirio yma: [Prove your right to work to an employer: Overview - GOV.UK](#)

Dim ond ychydig o bobl ddethol y gallwn eu gwahodd i drafodaeth anffurfiol cyn cynnig y swydd.

Cewch ymuno â rhwydwaith Cynhyrchwyr Amgueddfa Cymru [yma](#) lle rydyn ni'n rhannu rhagor o gyfleoedd â thâl, digwyddiadau a gweithdai i gymryd rhan ynddyn nhw.